# Dogfennau Ategol - Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 14 Ionawr 2021

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Liz Wilkinson**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6361

SeneddNHAMG@senedd.cymru

# Briff ymchwil a phapurau ychwanegol i'w nodi

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

## 2 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22

(13:45-14:30) (Tudalennau 1 - 21)

Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Gian Marco Currado, Cyfarwyddwr, Yr Amgylchedd a'r Môr

Christianne Glossop, Swyddfa'r Prif Filfeddyg

John Howells, Cyfarwyddwr Newid Hinsawdd, Ynni a Chynllunio

Dean Medcraft, Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau

Tim Render, Cyfarwyddwr Tir, Natur a Bwyd

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil (Saesneg yn unig)

**4.11 Gohebiaeth mewn perthynas â'r anghydfod sy'n parhau i fynd rhagddo rhwng Nwy Prydain ac Undeb y GMB**

(Tudalennau 22 - 25)

**Dogfennau atodol:**

Gohebiaeth rhwng y Cadeirydd a'r Llywydd

Llythyr gan y Cadeirydd at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Senedd Cymru
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
—
Welsh Parliament
Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee

Elin Jones AS
Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

31 Rhagfyr 2020

**Cyfarfod Brys y Pwyllgor NHAMG**

Annwyl Llywydd,

Ysgrifennaf atoch yn unol â Rheol Sefydlog 17.46 gan fy mod am alw cyfarfod o'r Pwyllgor ar y Newid yn yr Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig mewn wythnos nad yw'n wythnos eistedd. Yr wyf wedi ymgynghori ag aelodau'r Pwyllgor ac yr ydym wedi cytuno, mewn egwyddor, i gynnal cyfarfod brynhawn dydd Iau, 7 Ionawr.

Diben y cyfarfod hwn fydd ystyried anghydfod parhaus rhwng Nwy Prydain ac Undeb y GMB mewn perthynas â materion staffio. Yn dilyn pleidlais, mae Undeb y GMB wedi cyhoeddi y bydd ei aelodau'n cymryd camau diwydiannol am 5 diwrnod yn ystod Ionawr 2021, gan ddechrau ddydd Iau, 7 Ionawr.

Mae'r Pwyllgor yn pryderu, gan mai Nwy Prydain sy'n gyfrifol am weinyddu rhaglen flaenllaw Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella effeithlonrwydd cartrefi, NEST, y gallai y gweithredu diwydiannol a'r anghydfod parhaus effeithio ar gyflawni'r rhaglen. Bydd y Pwyllgor yn gwahodd cynrychiolwyr Nwy Prydain ac Undeb y GMB i ddod i'r cyfarfod i drafod y materion hyn.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech nodi cyn gynted ag y bo'n ymarferol a oes gennych unrhyw bryderon am y trefniadau arfaethedig a nodir yn y llythyr hwn.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddNHAMG@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCCERA@senedd.wales
0300 200 6565

Yn gywir

Mike Hedges AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

**Elin Jones AS, Llywydd**
Senedd Cymru
**Elin Jones MS, Presiding Officer**
Welsh Parliament

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ein cyf: EJ/MH

04 Ionawr 2021

Annwyl Mike,

Diolch am hysbysu a chadarnhau eich bod wedi ystyried oblygiadau adnoddau adalw'r Pwyllgor ar y mater yma. Mae Rheol Sefydlog 17.46 yn nodi "Ar ôl ymgynghori â'r Llywydd, caiff cadeirydd pwyllgor alw cyfarfod o'r pwyllgor mewn wythnos nad yw'n wythnos eistedd.". Mater i'r Pwyllgor ydyw i adalw 'r Pwyllgor felly.

Mi rydwyf yn copio'r llythyr yma at y Rheolwyr Busnes a'r Comisiynwyr er mwyn eu hysbysu fod un o Bwyllgorau'r Senedd wedi penderfynu cwrdd yn ystod y toriad.

Yn gywir,

**Elin Jones AS**
Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
llywydd@senedd.cymru
0300 200 7403

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
llywydd@senedd.wales
0300 200 7403

**Lesley Griffiths AS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

---

11 Ionawr 2021

Annwyl Weinidog,

Efallai eich bod yn ymwybodol o’r anghydfod sy’n parhau i fynd rhagddo rhwng Nwy Prydain a'r Undeb GMB mewn perthynas â materion staffio, sydd wedi arwain at 5 diwrnod o weithredu diwydiannol gan Undeb GMB, i ddechrau ddydd Iau 7 Ionawr.

Mae'r Pwyllgor yn pryderu, gan fod Nwy Prydain yn gyfrifol am weinyddu cynllun *NEST* Llywodraeth Cymru, y gallai’r anghydfod sy’n parhau i fynd rhagddo – ynghyd â’r gweithredu diwydiannol – effeithio ar y broses o gyflawni'r rhaglen.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech fynegi barn ar y graddau y mae'r gweithredu diwydiannol yn debygol o effeithio ar y broses o gyflawni'r cynllun *NEST*.

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu ymateb cyn gynted ag y bo modd.

Yn gywir,



Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddNHAMG@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCCERA@senedd.wales
0300 200 6565